# Ymgynghoriad Ynghylch Cynllun y Cyngor (2020-23) - Adroddiad Cryno

## Crynodeb

Roedd yr arolwg yn gofyn i ymatebwyr ddarllen disgrifiad o bob blaenoriaeth ac o’r meysydd ffocws ar gyfer 2020-23. Roedd gofyn wedyn i’r ymatebwyr nodi i ba raddau yr oeddynt yn cytuno y byddai’r meysydd ffocws a nodwyd ar gyfer 2020-23 yn cyflawni pob blaenoriaeth.

Yn ogystal, roedd yn rhaid iddynt nodi i ba raddau yr oeddynt yn cytuno y byddai cyflawni'r chwe blaenoriaeth yn galluogi'r Cyngor i wireddu ei weledigaeth bod pawb sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam yn derbyn cefnogaeth i gyrraedd eu llawn botensial, i lwyddo ac i gyrraedd safonau uchel o les.

Cafwyd 98 ymateb. Mae hwn yn gyfradd ymateb isel ac ni wnaeth pawb ateb bob cwestiwn / cwblhau’r arolwg yn llawn. Rydym ni’n credu bod sawl rheswm dros hyn: oherwydd yr ymgynghoriad ynghylch y chwe maes blaenoriaeth yn ystod haf 2019; dim cynigion ar gyfer newidiadau neu doriadau penodol i wasanaethau; a chynnal yr arolwg ar ddechrau’r sefyllfa ansicr mewn perthynas â'r coronafeirws.

Ar gyfer pob blaenoriaeth ceir meysydd ffocws clir a bu i nifer fawr o’r ymatebwyr gytuno’n gryf neu gytuno y byddai’r rhain yn cyfrannu at gyflawni’r flaenoriaeth. Yn ogystal, roedd mwy o bobl yn cytuno'n gryf neu’n cytuno nag yn anghytuno’n gryf neu’n anghytuno y byddai bron pob maes ffocws a nodwyd yn cyfrannu at gyflawni’r blaenoriaethau.

Y maes ffocws yr oedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn anghytuno’n gryf neu’n anghytuno o ran y byddai’n cyflawni blaenoriaeth oedd ‘Y Gymraeg’ ar gyfer Blaenoriaeth 2 - Sicrhau Cyngor Modern a Chryf (30% yn anghytuno’n gryf neu’n anghytuno a 21% yn cytuno'n gryf neu’n cytuno). Mae hyn yn cyd-fynd â phroffil yr ymatebwyr - dim ond dau a nododd eu bod yn siarad Cymraeg. Mae’n rhaid i’r Cyngor fodloni’r gofynion deddfwriaethol sydd ynghlwm wrth y Safonau Iaith.

## Blaenoriaeth 1 - Datblygu’r economi

Bu i 84 o ymatebwyr ymateb i un neu fwy o’r meysydd ffocws ar gyfer y cwestiwn hwn. ‘Sicrhau bod isadeiledd ffyrdd a rheilffyrdd yn cwrdd ag anghenion ein heconomi' a dderbyniodd y ganran uchaf o bobl yn cytuno’n gryf (54%), ac yna ‘Uwchgynllunio canol tref llai’ (30%) a ‘Hyrwyddo entrepreneuriaeth leol (26%). Pan gyfunir y canrannau cytuno'n gryf a chytuno, ‘Sicrhau bod isadeiledd ffyrdd a rheilffyrdd yn cwrdd ag anghenion ein heconomi' sydd â’r ganran uchaf (90%), gyda 'Hyrwyddo entrepreneuriaeth leol yn ail (77%) ac yna ‘Bargen Dwf Gogledd Cymru’ (66%).

## Blaenoriaeth 2 - Sicrhau Cyngor modern a chryf

Bu i 79 o bobl ymateb i’r holl feysydd ffocws ar gyfer y cwestiwn hwn. ‘Sicrhau bod gwasanaethau allweddol yn gynaliadwy’ a dderbyniodd y ganran uchaf o ymatebwyr yn cytuno’n gryf (42%), ac yna ‘Dulliau gweithio modern’ (35%) ac ‘Adolygu ein

gofynion gofod swyddfa’ (34%). Pan gyfunir y canrannau cytuno'n gryf a chytuno, ‘Sicrhau bod gwasanaethau allweddol yn gynaliadwy’ sydd â’r ganran uchaf (84%), yna ‘Dulliau gweithio modern’ (68%) ac yna ‘Adolygu ein gofynion gofod swyddfa’ a ‘Datblygu sefydliadol’ (65%).

**Blaenoriaeth 3 - Sicrhau bod pawb yn ddiogel**
Bu i 77 o bobl ymateb i un neu fwy o’r meysydd ffocws ar gyfer y cwestiwn hwn. ‘Gwella diogelwch cymunedol’ a dderbyniodd y ganran uchaf o ymatebwyr yn cytuno’n gryf (56%), yna ‘Lleihau digartrefedd’ (45%) a ‘Buddsoddi mewn safonau a gwasanaethau tai’ (34%). Pan gyfunir y canrannau cytuno'n gryf a chytuno, ‘Gwella diogelwch cymunedol’ sydd â’r ganran uchaf (91%), yna ‘Lleihau digartrefedd’ (82%) ac yna ‘Buddsoddi mewn safonau a gwasanaethau tai’ (70%).

**Blaenoriaeth 4 - Gwella addysg uwchradd**
Bu i 75 o bobl ymateb i un neu fwy o’r meysydd ffocws ar gyfer y cwestiwn hwn. ‘Gwella presenoldeb, lles ac ymddygiad disgyblion’ a dderbyniodd y ganran uchaf o ymatebwyr yn cytuno'n gryf (61%), yna ‘Gwella deilliannau dysgwyr ar frys’ (61%), a ‘Gwella cydweithio’ (47%). Pan gyfunir y canrannau cytuno'n gryf a chytuno, ‘Gwella presenoldeb, lles ac ymddygiad disgyblion’ a ‘Gwella deilliannau dysgwyr ar frys’ sydd â’r ganran uchaf (88% yr un). Roedd 68% o’r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu’n cytuno â ‘Gwella cydweithio'.

**Blaenoriaeth 5 - Gwella’r amgylchedd**
Bu i 72 o bobl ymateb i’r holl feysydd ffocws ar gyfer y cwestiwn hwn. ‘Gwella diogelwch a chyflwr ffyrdd’ a dderbyniodd y ganran uchaf o ymatebwyr yn cytuno’n gryf (75%), yna ‘Sbwriel a thipio anghyfreithlon’ (54%) a ‘Cynyddu ailgylchu a lleihau gwastraff’ (49%). Pan gyfunir y canrannau cytuno'n gryf a chytuno, ‘Gwella diogelwch a chyflwr ffyrdd’ sydd â’r ganran uchaf (92%), yna ‘Sbwriel a thipio anghyfreithlon’ (88%) ac yna ‘Cynyddu ailgylchu a lleihau gwastraff' (79%).

**Blaenoriaeth 6 - Hyrwyddo iechyd a lles da**
Bu i 71 o bobl ymateb i un neu fwy o’r meysydd ffocws ar gyfer y cwestiwn hwn. ‘Atal a chymorth cynnar’ a dderbyniodd y ganran uchaf o bobl yn cytuno’n gryf (49%), yna ‘Gofal cymdeithasol plant’ (32%), ac yna ‘Maethu a mabwysiadu’ (32%). Pan gyfunir y canrannau cytuno'n gryf a chytuno ‘Atal a chymorth cynnar’ sydd â’r ganran uchaf (80%), yna ‘Gofal cymdeithasol plant’ (76%), ac yna ‘Maethu a mabwysiadu’ (72%).

**Sylwadau pellach**
Gofynnwyd i’r ymatebwyr i ba raddau yr oeddynt yn cytuno y byddai cyflawni’r chwe blaenoriaeth yn galluogi’r Cyngor i wireddu ei weledigaeth o ran cefnogi’r bobl sy’n byw yma i gyrraedd eu llawn botensial, i lwyddo a chyrraedd safon uchel o les.

Atebwyd y cwestiwn hwn gan 71 o bobl. Roedd 16% yn cytuno’n gryf a 39% yn cytuno - sef, gyda'i gilydd, 55% yn naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf. Roedd 13% o’r ymatebwyr yn anghytuno a 7% yn anghytuno’n gryf (20% gyda’i gilydd). Roedd 25% naill ai ddim yn gwybod neu ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Ymatebodd 30 o bobl i'r cwestiwn 'Oes gennych chi unrhyw sylw arall am fersiwn ddrafft Cynllun y Cyngor 2020-23?' Mae'n amlwg o'r sylwadau bod gan bobl deimladau cryf iawn.

Roedd ar y rhan fwyaf eisiau gweld gwahaniaeth mawr yn cael ei wneud. Roedd arnynt eisiau cynllun a fyddai'n arwain at weithredu a newid amlwg. Hon oedd y thema fwyaf cyffredin, yn cyfrif am 24% (7) o'r sylwadau. Roedd eraill yn teimlo bod angen i'r cynllun fod yn fwy realistig a deall materion cyfredol a theimladau preswylwyr yr ardal yn well. Gofynnodd 10% (3) o'r ymatebwyr am gynllun a oedd yn adlewyrchu pryderon y cyhoedd yn well, gyda mwy o ymgynghori yn angenrheidiol i gyrraedd y pwynt hwnnw.

Awgrymodd 14% (4) fod angen rhoi mwy o sylw i'r ffordd y caiff arian cyhoeddus ei wario.